

Teitl y Swydd:	Therapydd Perfformiad
Uned/Ysgol:	Chwaraeon Met Caerdydd
Gradd:	4A/B
HERA:	METS133

Prif bwrpas y rôl

Mae'r tîm Gwasanaethau Perfformiad yn rhan annatod o'r system chwaraeon ehangach, gan weithio ar draws rhaglenni perfformiad y brifysgol i ddarparu cymorth o'r ansawdd uchaf, gyda'r nod o sicrhau'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr-athletwyr. Bydd y rôl bresennol yn golygu darparu gwasanaethau adsefydlu chwaraeon a chymorth ar ddiwrnodau gêm i raglenni perfformiad dethol.

Fel rhan o strwythur staffio sydd wedi'i aillunio, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda'r tîm Gwasanaethau Perfformiad presennol i ddarparu gwasanaethau adsefydlu chwaraeon a chymorth ar ddiwrnod y gêm, gan weithredu'n annibynnol hefyd i ddatblygu ei arferion a'i sgiliau datrys problemau ei hun.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Perfformio, y Prif Ffisiotherapydd a Phennaethiaid y chwaraeon i ddeall a diwallu anghenion y rhaglenni perthnasol.
- Cyfrannu at gynllunio a gweinyddu darpariaeth adsefydl sy gadarn ar gyfer y rhaglen berfformio.
- Darparu rhaglenni chwaraeon ar y cae, ar ymyl y cae ac yn y gampfa, gan ddefnyddio'r tîm amlddisgyblaethol ehangach, staff academiaidd a'r gweithlu o fyfyrwyr i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod gan bob chwaraewr yn y rhaglen berfformio fynediad at raglenni dychwelyd i chwarae strwythuredig, unigol a grŵp.
- Gweithredu prosesau strwythuredig ar gyfer dychwelyd i chwarae (RTP) a phrotocolau ar gyfer cyfergyd sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r corff llywodraethu cenedlaethol (NGB) a lefelau llawr gwlad.
- Cefnogi adrodd digidol rheolaidd, monitro wythnosol a misol, a chronfa ddata GPS.
- Profiad o ddefnyddio offer diagnostig a systemau rhaglennu a monitro athletwyr (VALD, Gymaware, TrainMyAthlete ac ati).
- Gweithredu yn unol â chyfarwyddyd y Prif Ffisiotherapydd a ffisiotherapyddion y tîm.
- Cydymffurfio â'r holl brosesau llywodraethu a chodau ymddygiad, gan gyflawni dyletswyddau cysylltiedig ar gyfer safonau gweithredu lleiaf British Universities & Colleges Sport (BUCS) a Performance Services, gan gynnwys y broses archwilio ac adolygu ar gyfer pob maes perthnasol.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd israddedig mewn Adsefydlu Chwaraeon neu debyg.
- Cofrestriad llawn BASRAT neu SST.
- Cymhwyster trawma chwaraeon ar ochr y cae (PHICIS Lefel 2, neu gymhwyster cyfatebol a gymeradwywyd gan y Royal College of Surgeons Edinburgh).
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad o weithio fel therapydd chwaraeon mewn amgylchedd chwaraeon.
2. Profiad o asesu a thrin cyflyrau cyhyrsgerbydol ac anafiadau chwaraeon.
3. Profiad o ddarparu cymorth meddygol ar ochr y cae ar ddiwrnod y gêm.
4. Profiad o weithio mewn lleoliad chwaraeon.
5. Dangos y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm o staff a rhanddeiliaid rhyngddisgyblaethol.
6. Profiad o ddefnyddio offer diagnostig a systemau rhaglennu a monitro athletwyr (VALD, GymAware, TrainMyAthlete ac ati).
7. Sgiliau cryf o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau, ynghyd â'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth, dehongli data monitro a datblygu atebion effeithiol.
8. Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig cryf, ynghyd â'r gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol amrywiol, dylanwadu arnynt a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â nhw.
9. Ymrwymiad i weithio mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys darparu gwasanaethau'n rheolaidd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Dymunol

1. MSc mewn Adsefydlu Chwaraeon neu debyg.
2. Dealltwriaeth o'r pwysau ar fyfyrwyr sy'n athletwyr sy'n dilyn gyrfa ddeuol.
3. Profiad o weithio mewn amgylchedd aml-chwaraeon.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau Cymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Nid yw'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig, ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Nid yw'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hwn wedi'u bwriadu i fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi ystyriaeth briodol i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos eu bod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.